Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru** | **South Wales** Fire and Rescue Service

## Gwasanaethau Fflyd a Pheirianneg
## Goruchwyliwr Gweithdai

**Parhaol**
**37 awr yr wythnos**

**Gradd 11 - Cyflog: £32,798 - £33,486**

(A fyddech gystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

**Rhif y Swydd: NU036**

---

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn un o'r Gwasanaethau Tân ac Achub mwyaf, a mwyaf llwyddiannus sy'n perfformio orau yn y DU. Mae'n gwasanaethu dros 1,500,000 o bobl ar draws 10 Awdurdod Unedol Cyfansoddol, o Ben-y-bont ar Ogwr i Drefynwy ac yn ymestyn o Fae Caerdydd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae swydd wag wedi codi yn Adran Gwasanaethau Peirianyddol y Fflyd fel Goruchwylydd Gweithdai. Prif bwrpas y swydd hon yw goruchwylio gweithgarwch y Gweithdai Fflyd a Pheirianneg, gan sicrhau ansawdd da yn gyson ynghyd a goruchwylio cyfleuster cynnal effeithlon a chost effeithiol Mae'r rôl hon yn ganolog i sicrhau bod yr adrannau Fflyd a Pheirianneg yn bodloni gofynion fflyd o gerbydau ac offer peiriannau Gwasanaeth Tân De Cymru yn llawn.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad effeithiol y fflydoedd, gan ddarparu cynllun galwadau brys 24 awr a mynychu prif ddigwyddiadau yn cynnwys cerbydau'r Gwasanaeth Tân yn ôl y gofyn.

Mae profiad o reoli Adran Fflyd a Pheirianneg fawr mewn amgylchedd Golau Glas neu amgylchedd cyfartalog yn hanfodol. Rhaid i ymgeiswyr fod â hanes profedig o lynu wrth weithdrefnau, gan sicrhau bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol i ateb gofynion newidiol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad DBS boddhaol a bydd gofyn iddo ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

---

Gellr lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gyrfaoedd ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn Ffurflenni Cais gorffenedig yw **12 noon Dydd Iau 11eg o Dachwedd 2022** a dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX. Nodwch nad ydym yn derbyn ffurflenni CV.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG